OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 565

# Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

## RHAN 4

## Gorfodi

**Trosedd cyflawni prosiect heb benderfyniad o dan y Rheoliadau hyn**

**21.**—(1) Mae'n drosedd dechrau neu gyflawni prosiect ar dir lled-naturiol a/neu dir heb ei drin, neu ddechrau neu gyflawni prosiect ailstrwythuro, yn groes i reoliadau 4 neu 8.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored, o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy.

(3) Mewn unrhyw achos cyfreithiol o dan y rheoliad hwn sy'n ymwneud â phrosiect ar dir lled-naturiol a/neu dir heb ei drin, tybir bod unrhyw ddarn o dir y mae'r erlyniad yn honni ei fod yn dir heb ei drin neu'n dir lled-naturiol yn dir heb ei drin neu'n dir lled-naturiol, ac os felly rhaid i'r erlyniad brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol fod y tir yn dir heb ei drin neu'n dir lled-naturiol.

**Trosedd cyflawni gwaith yn groes i amod**

**22.**—(1) Mae'n drosedd cyflawni unrhyw weithgarwch yn groes i amod cydsyniad a roddir yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored, o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy.

**Trosedd sicrhau penderfyniad drwy ddarparu gwybodaeth anwir**

**23.**—(1) Mae'n drosedd i unrhyw berson sydd, at ddiben sicrhau penderfyniad penodol ar gais a wnaed o dan y Rheoliadau hyn—

(a) yn fwriadol neu'n ddi-hid yn gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn manylyn perthnasol,

(b) gyda'r bwriad o dwyllo, yn defnyddio unrhyw ddogfen sy'n ffug neu'n gamarweiniol mewn manylyn perthnasol, neu

(c) gyda'r bwriad o dwyllo, yn cadw gwybodaeth berthnasol yn ôl.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored—

(a) o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol; neu

(b) o'i euogfarnu ar dditiad, i ddirwy.

**Hysbysiadau stop**

**24.**—(1) Os yw person wedi dechrau prosiect ar dir lled-naturiol a/neu dir heb ei drin neu brosiect ailstrwythuro, yn groes i reoliad 4 neu 8, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad yn gwahardd ar unwaith y cyfan neu ran o'r gwaith ("hysbysiad stop").

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad stop i unrhyw berson y mae'n ymddangos iddynt—

(a) bod ganddo fuddiant yn y tir perthnasol; neu

(b) ei fod yn cyflawni prosiect ar dir lled-naturiol a/neu dir heb ei drin neu brosiect ailstrwythuro, yn groes i reoliad 4 neu 8.

**Cosbau am fynd yn groes i hysbysiad stop**

**25.**—(1) Mae'n drosedd i berson fynd yn groes i hysbysiad stop, neu beri neu ganiatáu i berson arall fynd yn groes i hysbysiad stop.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored—

(a) o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol; neu

(b) o'i euogfarnu ar dditiad, i ddirwy.

**Hysbysiadau adfer**

**26.**—(1) Os yw person wedi cyflawni prosiect ar dir lled-naturiol a/neu dir heb ei drin neu brosiect ailstrwythuro, yn groes i reoliadau 4 neu 8, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad i'r person y mae'n ymddangos iddynt ei fod yn gyfrifol ("hysbysiad adfer").

(2) Caiff hysbysiad adfer ei gwneud yn ofynnol i'r person—

(a) adfer y tir perthnasol, er boddhad Gweinidogion Cymru, i'r un cyflwr ag yr oedd cyn dechrau'r prosiect; neu

(b) cymryd y fath gamau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol i adfer y tir i gyflwr amgylcheddol da neu i safon y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

(3) Rhaid i hysbysiad adfer ddatgan y cyfnod y mae gofynion yr hysbysiad i'w cyflawni o'i fewn.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg ar ôl dyroddi hysbysiad adfer—

(a) diwygio telerau'r hysbysiad hwnnw;

(b) estyn y cyfnod o dan baragraff (3); neu

(c) terfynu'r hysbysiad hwnnw.

**Y gosb am fynd yn groes i hysbysiad adfer**

**27.**—(1) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o ofynion hysbysiad adfer yn euog o drosedd.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored, o'i euogfarnu'n ddiannod—

(a) i ddirwy; a

(b) os yw'r methiant i gydymffurfio yn parhau ar ôl dyddiad yr euogfarn, i ddirwy bellach nad yw'n fwy na £100 am bob diwrnod y mae'r methiant yn parhau.

**Terfynau amser ar gyfer dwyn achosion cyfreithiol**

**28.**—(1) Caniateir dwyn achosion cyfreithiol am drosedd o dan y Rheoliadau hyn o fewn y cyfnod o 6 mis o'r dyddiad y daeth tystiolaeth, a oedd yn ddigonol ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau'r achos cyfreithiol, yn hysbys iddo.

(2) Ond ni chaniateir cychwyn unrhyw achos o'r fath yn rhinwedd paragraff (1) fwy na 2 flynedd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) mae tystysgrif a lofnodwyd gan neu ar ran yr erlynydd ac sy'n datgan y dyddiad y cafodd wybod am dystiolaeth a oedd yn ddigonol yn ei farn ef i gyfiawnhau'r achos yn dystiolaeth ddigamsyniol o'r ffaith honno; a

(b) bernir bod tystysgrif sy'n datgan y mater hwnnw ac sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi felly yn dystysgrif sydd wedi ei llofnodi felly oni phrofir i'r gwrthwyneb.

**Pwerau mynediad a phwerau diofyn**

**29.**—(1) Caiff person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru fynd ar unrhyw dir a'i arolygu, ar unrhyw adeg, at ddibenion—

(a) canfod pa un a yw rheoliad 4 neu 8 wedi eu torri;

(b) canfod pa un a oes trosedd o dan y Rheoliadau hyn wedi ei chyflawni mewn cysylltiad â'r tir hwnnw;

(c) cyflwyno hysbysiad stop neu hysbysiad adfer mewn cysylltiad â'r tir hwnnw; neu

(d) arfer swyddogaeth a restrir yn Atodlen 4.

(2) Caiff person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru ac sydd â sail resymol dros amau bod person wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 23—

(a) cael mynediad i unrhyw fangre sydd, neu y credir ei bod, wedi ei meddiannu gan, neu wedi ei feddu gan, y person y credir ei fod yn gyfrifol am gyflawni'r drosedd; a

(b) cymryd copïau o unrhyw gofnodion sy'n berthnasol i gyflawni'r drosedd a amheuir.

(3) Ond nid yw paragraff (2) yn gymwys i unrhyw fangre a ddefnyddir fel annedd breifat yn unig.

(4) Os nad oes unrhyw fesurau sy'n ofynnol gan hysbysiad adfer neu gan hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff 5 o Atodlen 4 wedi eu cyflawni o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad—

(a) caiff person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru gael mynediad, ar adeg resymol, i'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef a chyflawni'r mesurau hynny; a

(b) adennill yr holl dreuliau yr aed iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny oddi wrth y person a enwir yn yr hysbysiad.

(5) At ddibenion canfod pa un a gyflawnwyd trosedd ar y tir neu mewn cysylltiad â'r tir, caiff person sy'n gweithredu yn unol â pharagraff (1) symud ymaith—

(a) samplau pridd;

(b) sbesimenau planhigion; neu

(c) samplau a gymerir o sbesimenau planhigion.

(6) Rhaid i berson a awdurdodir i gael mynediad i dir neu fangreoedd o dan y rheoliad hwn ddangos tystiolaeth ei fod wedi ei awdurdodi i gael mynediad i'r tir neu'r mangreoedd, os gofynnir iddo wneud hynny.

(7) Caiff person a awdurdodir i gael mynediad i dir neu fangreoedd o dan y rheoliad hwn ddod ag unrhyw bersonau eraill neu unrhyw gyfarpar y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol gyda hwy.

(8) Rhaid i berson sy’n meddiannu tir neu fangre, neu sy’n meddu ar dir neu fangre, y mae person a awdurdodir o dan y rheoliad hwn wedi mynd arno neu arni, roi y fath gymorth y gall y person awdurdodedig hwnnw ofyn yn rhesymol amdano er mwyn ei alluogi i arfer unrhyw bŵer a roddir iddo gan y rheoliad hwn.

(9) Mae’n drosedd i berson—

(a) rhwystro neu atal yn fwriadol person sy’n gweithredu wrth arfer pŵer a roddir o dan y rheoliad hwn; neu

(b) methu â chydymffurfio, heb esgus rhesymol, â cheisiad a wnaed o dan baragraff (8).

(10) Mae person sy’n euog o drosedd o dan baragraff (9) yn agored, o’i euogfarnu’n ddiannod, i ddirwy.